# GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CYFNEWIDFA CORYTON, CAERDYDD I FAN I'R GOGLEDD O GYFNEWIDFA FFYNNON TAF, RHONDDA CYNON TAF) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd oherwydd rhwystr diogelwch diffygiol ar gefnffordd yr A470 rhwng Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd a Chyfnewidfa Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar y darnau o gefnffordd yr A470 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2022 a disgwylir y bydd y cyfyngiad dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd yr A470 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Coryton hyd at bwynt 2.1 cilometr i'r gogledd o'r ffordd ymuno hynny.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 wrth Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt 120 o fetrau i'r gogledd o Gylchfan Coryton hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o bwynt 105 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r A4054 hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd.

# THE A470 TRUNK ROAD (CORYTON INTERCHANGE, CARDIFF TO NORTH OF TAFFS WELL INTERCHANGE, RHONDDA CYNON TAF) (TEMPORARY 50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary because of the likelihood of danger to the public due to a defective safety barrier on the A470 trunk road between Coryton Interchange and Taffs Well Interchange.

The effect of the Order is to impose a temporary 50 mph speed limit on the lengths of the A470 trunk road described in the Schedule to this Notice.

The Order comes into force on 1 April 2022 and the temporary restriction is expected to operate from 00:01 hours on that date for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## SCHEDULE

The length of the A470 northbound carriageway that extends from the nosing of the northbound entry slip road at Coryton Interchange to a point 2.1 kilometres north of that slip road.

The length of the A470 northbound entry slip road at Coryton Interchange that extends from a point 120 metres north of Coryton Roundabout to its junction with the main northbound carriageway of the trunk road.

The length of the A470 northbound entry slip road at Taffs Well Interchange that extends from a point 105 metres north of its junction with the A4054 to its junction with the main northbound carriageway of the trunk road.